OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3162 (Cy.273)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Taliadau Gweinyddol (Crynodeb o Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - -	*5 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - -	*30 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru(**1**), drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 4(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**2**) ac adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**3**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Gweinyddol (Crynodeb o Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan gyflwynir, ar 30 Tachwedd 2007, neu ar ôl hynny, hawliad am daliad gweinyddol(**4**) mewn perthynas ag annedd(**5**) yng Nghymru.

Ffurf a chynnwys crynodeb o hawliau a rhwymedigaethau

2. Rhaid i'r crynodeb o hawliau a rhwymedigaethau sy'n gorfod mynd gyda hawliad am daliad gweinyddol fod yn ddarllenadwy ar ffurf deipiedig neu argraffiedig o o leiaf 10 pwynt, a rhaid iddo gynnwys—

(a) y pennawd "Taliadau Gweinyddol – Crynodeb o hawliau a rhwymedigaethau tenantiaid / Administration Charges – Summary of tenants' rights and obligations"; a

(b) y datganiad canlynol—

(**1**) Mae'r pwerau a roddir gan baragraff 4(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15) yn arferadwy gan yr awdurdod gwladol priodol. Diffinnir "*Appropriate national authority*" yn adran 179(1) o'r Ddeddf honno a'i ystyr o ran Cymru yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 2002 p. 15.

(**3**) 1993 p. 38.

(**4**) I gael ystyr "*administration charge*" gweler paragraff 1 o Atodlen 11 i Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**5**) I gael ystyr "*dwelling*" gweler adran 38 o Ddeddf Landlord a Thenant 1985 (p. 70).

"(1) Rhaid yn ôl y gyfraith i'r crynodeb hwn, sy'n gosod yn gryno eich hawliau a'ch rhwymedigaethau mewn cysylltiad â thaliadau gweinyddol, fynd gyda galwad am daliadau gweinyddol. Oni fydd crynodeb yn cael ei anfon atoch gyda'r alwad i dalu, gellwch ddal y taliad gweinyddol yn ôl. Nid yw'r crynodeb yn rhoi dehongliad llawn o'r gyfraith ac os ydych mewn unrhyw amheuaeth ynglyn a'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau dylech geisio cyngor annibynnol.

(2) Taliad gweinyddol yw swm a all fod yn daladwy gennych fel rhan o'ch rhent yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu'n ychwanegol ato—

ar gyfer rhoi cymeradwyaeth dan les neu mewn cysylltiad â hynny;

ar gyfer darparu gwybodaeth neu ddogfennau neu mewn cysylltiad â hynny;

mewn cyslltiad â'ch methiant i wneud unrhyw daliad dyledus o dan eich les; neu

mewn cysylltiad â thorri cyfamod neu amod yn eich les.

Os ydych yn atebol i dalu taliad gweinyddol, nid yw'n daladwy ond i'r graddau y mae'r swm yn rhesymol.

(3) Mae unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn dogfen yn rhoi les o dan yr hawl i brynu dan Ddeddf Tai 1985 sy'n honni gadael i'r landlord godi swm am ganiatâd neu gymeradwyaeth, yn ddi-rym.

(4) Mae gennych hawl i ofyn i dribiwnlys prisio lesddaliadau a yw taliad gweinyddol yn daladwy. Gellwch ofyn naill ai cyn neu ar ôl i chi dalu'r tâl gweinyddol. Os yw'r tribiwnlys prisio'n penderfynu fod y tâl yn daladwy fe all y bydd y tribiwnlys hefyd yn penderfynu—

pwy ddylai dalu'r tâl gweinyddol ac i bwy y dylid ei dalu;

y swm;

y dyddiad y

daw'n daladwy; a

sut y dylid ei dalu.

Nid oes gennych yr hawl hwn fodd bynnag—

pan fyddwch wedi cytuno ar fater neu wedi cyfaddef iddo;

pan fydd mater wedi cael ei gyfeirio i gymrodedd, neu y bydd yn cael ei gyfeirio felly, neu pan fydd wedi cael ei benderfynu drwy gymrodedd a'ch bod chi wedi cytuno i fynd i gymrodedd ar ôl i'r anghytundeb ynglyn â'r tâl gweinyddol godi; neu

pan fydd llys wedi penderfynu ar fater.

(5) Mae gennych hawl i wneud cais i dribiwnlys prisio lesddaliadau am orchymyn yn amrywio'r les ar y sail fod unrhyw daliad gweinyddol a bennir yn y les, neu unrhyw fformiwla a bennir yn y les ar gyfer cyfrifo taliad gweinyddol, yn afresymol.

(6) Pan fyddwch yn ceisio penderfyniad neu orchymyn gan dribiwnlys prisio lesddaliadau bydd rhaid i chi dalu ffi ar gyfer gwneud cais, ac os bydd y mater yn mynd ymlaen am wrandawiad, ffi gwrandawiad, oni fyddwch yn gymwys i gael hepgor neu ostwng y ffi. Ni fydd cyfanswm y ffioedd taladwy i'r tribiwnlys yn fwy na £500, ond gall costau ychwanegol, megis ffioedd proffesiynol, ddeillio o wneud cais, a dichon mai chi fydd raid eu talu.

(7) Mae gan dribiwnlys prisio lesddaliadau y pwer i ddyfarnu costau, heb fod yn uwch na £500, yn erbyn parti mewn unrhyw achos—